Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Pengwern Cambian

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Coleg Pengwern yn goleg arbenigol annibynnol ym mherchenogaeth grŵp Cambian. Mae'n darparu addysg ar gyfer hyd at 75 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 oed ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau corfforol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Gall dysgwyr gael lleoliadau am hyd at dair blynedd. Mae 53 o ddysgwyr yno ar hyn o bryd. Mae 27 yn mynychu bob dydd. Mae lleoliadau preswyl gan y gweddill.

Mae'r coleg wedi'i leoli mewn man gwledig yn Rhuddlan, gogledd Cymru, ac mae fferm fechan ac ysgol goedwig yn rhan o'i amgylchedd 23 erw.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r coleg wedi adeiladu tair ystafell ddosbarth newydd yn lle'r adeiladau dros dro. Mae wedi cyflogi nyrs amser llawn hefyd.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r coleg:**

- Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda iawn ac yn cadw at y dasg
- Gall dysgwyr fanteisio'n dda ar brofiad gwaith
- Mae tiwtoriaid yn cynllunio'u sesiynau yn ofalus ac yn paru'r gwaith ag anghenion a galluoedd dysgwyr yn dda
- Mae staff yn gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwybod pa mor dda y maent wedi bodloni eu targedau ar gyfer gwaith ac ymddygiad
- Gwneir defnydd da o symbolau ar draws y coleg i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn ymgysylltu â'u gwaith
- Mae tiwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu yn cydweithio'n dda iawn i gefnogi'r dysgwyr
- Mae tiwtoriaid a dysgwyr wedi elwa o hyfforddiant ar asesu ar gyfer dysgu

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd y coleg i'w datblygu:**

- Mae wedi cyflwyno system electronig, a ddatblygwyd gan y cwmni, ar gyfer casglu data a monitro perfformiad, ac mae'n dechrau dadansoddi'r data hwn i lywio cynllunio
- Mae'r adroddiad hunanasesu yn nodi cryfderau'r coleg yn glir, er nad yw'n nodi meysydd i'w datblygu yn ddigon da
- Mae'r coleg wedi cydnabod yr angen i ddatblygu prosesau mwy effeithiol ar gyfer ceisio barn gweithwyr proffesiynol

### Argymhellion

**Dylai'r coleg:**

A1 Barhau i ddadansoddi data er mwyn llywio cynllunio

A2 Sicrhau bod yr adroddiad hunanasesu yn canolbwyntio'n glir ar feysydd i'w datblygu, yn ogystal â chryfderau

A3 Parhau i geisio barn gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r broses hunanasesu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella cyflawniad dysgwyr sy'n fechgyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn dilyn dadansoddiad o ddata ar ddeilliannau, nododd y coleg yr angen i adolygu targedau dysgwyr unigol, yn enwedig y rhai a oedd yn mynychu'r coleg yn rhan-amser. Daeth yn glir bod gormod o dargedau gan ddysgwyr rhan-amser, bob un ohonynt yn fechgyn. Cafodd hyn effaith ar y data ar gyfer dysgwyr sy'n fechgyn.

Bellach, mae arweinwyr llwybr yn gosod targedau gyda'r dysgwyr, sy'n adlewyrchu'n gywir nifer yr oriau y mae dysgwyr yn mynychu'r coleg.

Ar hyn o bryd, gall y coleg ddangos mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng perfformiad dysgwyr sy'n fechgyn a dysgwyr sy'n ferched.

**Argymhelliad 2: Ystyried cyflwyno cymwysterau galwedigaethol ar gyfer cyflogaeth benodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Er Medi 2015, mae dysgwyr sy'n dilyn y llwybr Archwilio Gwaith wedi gallu dewis o blith amrywiaeth o gyrsiau achrededig. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau tir, lletygarwch ac arlwyo, technegol gwybodaeth a thechnoleg crefft a dylunio.

Mae dysgwyr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau blasu, cyn dechrau'n llawn ar y cyrsiau, i wneud yn siŵr bod y cyrsiau hyn yn bodloni eu hanghenion.

Yn ddiweddar, yn ogystal, mae'r coleg wedi cyflwyno cwrs achrededig mewn astudiaethau bwyd a chwrs heb achrediad mewn ffotograffiaeth.

Oherwydd bod y cyrsiau hyn ond wedi'u cyflwyno yn ddiweddar, mae'n rhy gynnar eto i ddweud a fyddant yn arwain at waith penodol.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynnwys yn adolygiadau dysgwyr bob amser**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan bob dysgwr chwe tharged, gan gynnwys un ar gyfer llythrennedd, un ar gyfer rhifedd a dau ar gyfer cyfathrebu. Mae'r coleg yn adolygu'r targedau hyn bob tymor, i fonitro cynnydd a sicrhau bod y targedau yn briodol.

Mae adroddiadau blynyddol bellach yn cynnwys gwybodaeth briodol am lythrennedd a rhifedd. Trafodir yr adroddiadau hyn gyda dysgwyr a'u rhieni mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Argymhelliad 4: Canolbwyntio mwy ar asesu ar gyfer dysgu ar draws y coleg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da iawn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Yn dilyn yr ymweliad diwethaf, cyflwynodd arweinwyr lwybr hyfforddiant i'r holl staff, yr aethant ati wedyn i ddatblygu amrywiaeth o adnoddau i'w defnyddio gyda dysgwyr o bob gallu.

Mae'r coleg wedi sefydlu systemau cadarn ar gyfer monitro effeithiolrwydd asesu ar gyfer dysgu ar draws y coleg. Mae hyn yn cynnwys craffu ar gynlluniau sesiynau a ffeiliau sesiynau yn rheolaidd, ynghyd ag arsylwi sesiynau yn rheolaidd.

Mae effaith y gwaith hwn i'w gweld yn glir mewn sesiynau. Mae asesu ar gyfer dysgu bellach wedi'i ymgorffori ar draws y coleg. Mae dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth yn gwneud defnydd da iawn ar symbolau ac adnoddau pwrpasol i sgorio'u perfformiad. Mae dysgwyr mwy abl hefyd yn asesu eu cymheiriaid, gan roi sgôr allan o ddeg i'w gwaith ei gilydd.

**Argymhelliad 5: Ehangu ymgynghori â rhanddeiliaid wrth hunanarfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r coleg wedi ehangu ymgynghori â rhanddeiliaid yn y broses hunanarfarnu. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori â rhieni, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr.

Mae ymgynghori â rhieni wedi cynnwys gweithdy i rieni roi adborth ar gwestiynau allweddol Estyn, digwyddiad i ddathlu llwyddiant myfyrwyr a chreu grŵp cymorth newydd i rieni. Mae'r digwyddiadau hyn wedi galluogi rhieni i sicrhau gwell dealltwriaeth o waith y coleg ac i fynegi eu barn.

Mae'r coleg wedi dechrau casglu barn gweithwyr proffesiynol trwy arolygon a gwahoddiadau i ddiwrnodau agored. Fodd bynnag, megis dechrau y mae hyn. Mae'r coleg wedi nodi'r angen i ddatblygu prosesau mwy effeithiol ar gyfer cael barn y rhanddeiliaid hyn.

**Argymhelliad 6: Hyrwyddo'r defnydd o ddata ar draws y coleg er mwyn gwella deilliannau dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg bellach yn casglu ac yn dadansoddi ystod ehangach o ddata yn ymwneud â dysgwyr unigol ynghyd â grwpiau. Er enghraifft, mae tiwtoriaid wedi defnyddio data yn ymwneud ag amgyffredion dysgwyr i lywio cynllunio gwersi a gwella ymgysylltu â dysgwyr.

Mae'r arweinydd datblygu ansawdd wedi gwella ansawdd y data a gaiff tiwtoriaid. Mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth werthfawr hon i osod targedau craidd dysgwyr a gall rheolwyr fonitro perfformiad yn fwy cywir. Mae gan yr adolygiadau tymhorol ffocws clir ar ddata a dangosant gynnydd unigol mewn llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno system ddata newydd, a ddatblygwyd gan y cwmni. Mae hyn yn gallu dangos camau bach iawn o gynnydd ar draws ystod eang o feysydd. Er enghraifft, mae ymgysylltu'n cael ei rannu yn ôl pontio, presenoldeb, cyfranogiad a medrau. O ganlyniad, gall y coleg olrhain cynnydd dipyn wrth dipyn ac ymyrryd mewn modd amserol lle nad yw dysgwyr yn gwneud cystal ag y gallant.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Pengwern Cambian |
| **Rhif y Coleg** | F0006002 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 19/10/2015 |
| **Perchennog** | Cambian |
| **Staff** | 12 tiwtoriaid<br>73 o gynorthwywyr cymorth dysgu (25-28 yn ystod y diwrnod academaidd) |
| **Nifer y dysgwyr** | 53 |
| **Darpariaeth** | Dydd, 38 wythnos breswyl a 52 wythnos breswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau dysgu lluosog a chymedrol i ddwy, anableddau corfforol a chyflyrau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 01/10/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/07/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/03/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Adrodd |
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Tîm |